Er mwyn hwyluso'r broses o ystyried yr ymatebion, darperir tair dogfen sy'n cyd-fynd â'r llythyr hwn:

Atodiad 1 – Ymatebion i'r argymhellion
Atodiad 2 – Ymateb i argymhelliad 7
Atodiad 3 – Ymateb i Argymhelliad 9 (Darperir hwn yn gyfrinachol gan ei fod yn ymwneud â data personol)

Yours,

Andrew Goodall

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru / Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 6935
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut y byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about-welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Atodiad 1:**
**Craffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22**
**Ymatebion i'r Argymhellion**

**Argymhelliad 1**

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu cynnwys ei chyfrifon i sicrhau ei bod yn adrodd mewn ffordd briodol hanes ei gwariant a’r hyn y mae wedi’i gyflawni. Dylai Llywodraeth Cymru, yn benodol, ystyried y wybodaeth y mae'n ei chynnwys am ei chyllid grant, sy'n rhoi cyfrif am gyfran sylweddol o'i gwariant ond nid adlewyrchir hyn yng nghydbwysedd y wybodaeth yn y cyfrifon.

**Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio bob blwyddyn i sicrhau bod y cyfrifon yn rhoi trosolwg priodol i'r darllenydd o'r ystod eang o weithgareddau yr eir iddynt a gweithgarwch cyflawni a wneir fel Llywodraeth. Gall hyn fod yn gydbwysedd heriol, ond mae'n fwriad bob amser ddarparu darlun hygyrch a chyflawn. Fel rhan o'n proses barhaus byddwn yn adolygu cynnwys y cyfrifon o ran cwmpas, strwythur a llif i sicrhau ei fod yn adrodd yr hanes mewn ffordd briodol.

Mae'r cyfrifon ar gyfer 2022-23 yn cynnwys naw tudalen yn Rhan 1 mewn perthynas â Gweinyddu Grantiau, gan gynnwys cyllid WEFO, sy'n yn darparu gwybodaeth hefyd am gyllid grant wedi'i neilltuo a heb ei neilltuo. Byddwn yn adolygu'r adran hon i weld ble y gellir gwneud gwelliannau i'w gwneud yn fwy cryno neu'n haws ei ddefnyddio o bosibl.

**Gwrthod**

Er y bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu cynnwys y cyfrifon i ystyried a gwneud diwygiadau i sicrhau eu bod yn adrodd yr hanes yn iawn, hoffem nodi y bydd y dadansoddiad manwl o alldro gwariant ar Lefel Gwariant y Gyllideb (BEL) yn flynyddol yn parhau i gael ei adrodd yn yr adroddiad alldro, ni fydd y cyfrifon yn dyblygu'r wybodaeth hon. Y prif fecanwaith ar gyfer adrodd ar gyflawni amcanion a chanlyniadau polisi'r Rhaglen Lywodraethu fel y cytunwyd arnynt gyda'r Prif Weinidog yw Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru o hyd. Ni fydd y cyfrifon yn dyblygu'r wybodaeth hon.

**Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall gyflwyno ei chyfrifon mewn modd mwy hygyrch. Gellid cyflawni hyn drwy ddogfennau cryno neu offer rhyngweithiol ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth yn gliriach, yn hytrach na chynnwys y copi PDF yn unig o'r cyfrif llawn, fel y mae’n gwneud ar hyn o bryd.

**Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio bob blwyddyn i wella cyflwyniad y cyfrifon gan gynnwys cydbwysedd rhwng cynnwys y naratif, y tablau a'r ffeithluniau a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae'r gwelliannau hyn wedi cael eu cydnabod gan Drysorlys Ei Fawrhydi yn ei ‘Best Practice Financial Reporting Review’ gan nodi defnydd Llywodraeth Cymru o ffeithluniau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn ei henghreifftiau Arferion Gorau.

Rydym wrthi'n archwilio gyda chydweithwyr Digidol Corfforaethol y prosesau a'r adnoddau y mae eu hangen i ddarparu fersiwn HTML o'r cyfrifon yn y dyfodol.

**Argymhelliad 3**

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu lincs i'r cyhoeddiadau a'r adroddiadau y mae'n cyfeirio atynt yn ei chyfrifon, gan fod y Pwyllgor o'r farn ei bod yn anodd dod o hyd i ddogfennau allweddol ar wefan Llywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd adolygu ei gwefan i sicrhau ei bod yn haws i bobl ei llywio a dod o hyd i'r wybodaeth y mae ei hangen.

**Derbyn**

Ar gyfer Cyfrifon 2022-23 rydym wedi ceisio sicrhau bod dolenni i'r cyhoeddiadau a'r adroddiadau y cyfeirir atynt yn y ddogfen wedi'u hymgorffori yn y ddogfen a byddwn yn parhau i wneud hynny mewn cyhoeddiadau ar gyfrifon yn y dyfodol. Ymhellach, byddwn yn diweddaru'r tudalennau gwe sy'n cynnal y cyfrifon i gynnwys dolenni i'r adroddiadau allweddol canlynol er hwylustod:

- Cyllidebau Llywodraeth Cymru
- Yr Adroddiad Alldro
- Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru
- Adroddiad Llesiant Cymru
- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella strwythur pynciau'r wefan a'r swyddogaeth chwilio. Dylai hyn wella gallu defnyddwyr i ddod o hyd i'r wybodaeth y mae arnynt ei

hangen. Dylai gwelliannau cychwynnol fod ar waith erbyn ail chwarter 2024. Yna bydd gwelliannau pellach yn dilyn.

**Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd argymhelliad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd ar gyhoeddi'r Adroddiad ar Alldro. Er ein bod yn cydnabod y rhwystrau ymarferol i gyhoeddi pob adroddiad ariannol ar yr un pryd, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cyhoeddi'r dogfennau hyn naill ai ar yr un pryd neu mor agos â phosibl at ei gilydd. Yn benodol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad ar Alldro cyn gynted â phosibl ar ôl gosod ei chyfrifon bob blwyddyn ac yn ddigon prydlon i alluogi'r Pwyllgor i ystyried ei gynnwys cyn ei sesiynau craffu ar y cyfrifon.

**Derbyn**

Byddai cyhoeddi'r Adroddiad ar Alldro yr un pryd â'r cyfrifon yn rhoi baich diangen ar adnoddau ar adeg pan fo'r tîm (bach) yn ymwneud â'r paratoadau ar gyfer yr Ail Gyllideb Atodol yn ogystal ag adrodd i randdeiliaid yn y flwyddyn ariannol bresennol. Mae aros nes y caiff y cyfrifon eu cyhoeddi yn lleihau'r baich ar y tîm, yn enwedig o ran golygu a chyfieithu.

Prif ddiben yr adroddiad erioed fu i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gyllid rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid. Mae cyhoeddi o fewn tair wythnos i'r cyfrifon yn ymrwymiad diweddar ac mae'n un heriol. Serch hynny, byddwn yn parhau ar y sail honno.

Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar Alldro 2022-23 o fewn yr ymrwymiad tair wythnos: [Adroddiad ar alldro 2022 i 2023 | LLYW.CYMRU]

**Argymhelliad 5**

Er mwyn galluogi'r darllenydd i weld gwerth yr ystod o asedau gwahanol sydd wedi'u cynnwys yn y categori asedau ac i hwyluso gwaith craffu, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys dadansoddiad o'r 'Asedau Ariannol Eraill' ar gyfer ei sefyllfa graidd yn ei chyfrifon.

**Derbyn**

Bydd dadansoddiad ychwanegol o 'Asedau Ariannol Eraill' yn cael ei ymgorffori yn sylwebaeth y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn Rhan 1 ar gyfer 2023-24.

**Argymhelliad 6**

Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys gwybodaeth, yn ei chyfrifon, am effaith newidiadau i gyfansoddiad ei Grŵp ar ei thrafodiadau ariannol a'i balansau a adroddwyd.

**Derbyn**

Yn y dyfodol pan ddaw cyrff newydd o fewn Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu am yr effaith ar falansau allweddol megis incwm, gwariant cyffredinol ac effeithiau asedau net.

**Argymhelliad 7**

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu i'r Pwyllgor, ar yr adeg y mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn cymeradwyo ac yn llofnodi Cyfrifon 2022-23 os nad cyn hynny, ddiweddariad am yr argymhellion a wnaed ganddo a'r Pwyllgor a'i rhagflaenodd yn dilyn gwaith craffu ar y cyfrifon nad yw wedi'u gweithredu eto. Dylai'r diweddariad hwn gynnwys esboniad pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu eto ar argymhelliad y Pwyllgor, yn ogystal â'r amserlen arfaethedig ar gyfer ei weithredu.

**Derbyn**

Er eglurder, mae'r ymateb i'r argymhelliad hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad 2.

**Argymhelliad 8**

Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd argymhelliad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd ar ofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor o ofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y mae'n ceisio cydymffurfio â hwy wrth lunio ei chyfrifon. Dylai hefyd hysbysu'r Pwyllgor am newidiadau i'w phenderfyniadau, neu yn sgil gofynion newydd y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, pan gyhoeddir y cyfrifon. Dylid darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl cyn Cyfrifon 2023-24.

**Derbyn**

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu manylion y gofynion FReM y mae'n anelu at gydymffurfio â hwy wrth baratoi ei chyfrifon yn flaenorol i'r Pwyllgor oherwydd effaith Covid-19 a'r effaith ddilynol ar amserlenni cyfrifyddu ar draws Sector Cyhoeddus Cymru. Mae adnoddau wedi'u blaenoriaethu i'r broses o gynhyrchu cyfrifon a gweithredu safonau cyfrifyddu newydd i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn y FReM ar gyfer paratoi ei chyfrifon ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau ar y FReM ac eithrio pan fo gofynion yn gymwys yn benodol i Adrannau Llywodraeth y DU yn unig, neu le mae esemptiadau i Lywodraeth Cymru rhag cydymffurfio - i gydnabod bod gan Gymru fel gweinyddiaeth ddatganoledig gyd-destun polisi a rhanddeiliaid gwahanol. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â gofynion dadansoddi perfformiad ac adrodd am gynaliadwyedd.
Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu hyn i'r Pwyllgor cyn cyfrifon 2023-24, yn awr bod manylion terfynol FReM ar gyfer 2023-24 wedi'u pennu ym mis Rhagfyr 2023.

**Argymhelliad 9**

Mae'r Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth ynghylch pwy a gymeradwyodd gais y Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg am ymddeoliad rhannol a sicrwydd nad yw'r materion a nodwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â threfniadau gweithio'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol o 1 Ebrill 2018 yn gymwys yn yr achos hwn. Rydym yn gofyn am ragor o wybodaeth am y rôl hon ac rydym yn nodi ei bod bellach yn cael ei chyflawni'n rhan-amser.

**Derbyn**

Darperir ymateb cyfrinachol ar gyfer yr wybodaeth hon yn Atodiad 3 gan ei fod yn ymwneud â data personol.

**Argymhelliad 10**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cyhoeddi'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mawrth erbyn i'r Ysgrifennydd Parhaol gymeradwyo a llofnodi'r Cyfrifon ar gyfer yr un flwyddyn ariannol. Dylai hyn ddechrau gyda'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023 a'r Cyfrifon ar gyfer 2022-23. Bydd hyn yn sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu craffu ar y Datganiad Polisi Tâl bob blwyddyn, ochr yn ochr â'r cyfrifon.

**Derbyn**

Ein bwriad bob amser yw cyhoeddi'r Datganiad Polisi Tâl yr un pryd â'r Cyfrifon blynyddol neu yn fuan wedyn er mwyn galluogi'r Pwyllgor i graffu ar y ddwy ddogfen ar yr un pryd.

Mae Datganiad Polisi Tâl 2023 bellach wedi'i gwblhau ac fe gytunwyd arno yn fewnol ac mae'n mynd drwy'r broses gyfieithu a dylunio. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru cyn diwedd mis Chwefror 2024. .

**Argymhelliad 11**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth ynghylch pa mor fuan ar ôl pob cyfarfod Bwrdd y mae'n bwriadu sicrhau bod yr agenda a'r papurau ar gael i'r cyhoedd mewn modd amserol.

**Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru'n anelu at gyhoeddi'r cofnodion a'r papurau sydd wedi'u cymeradwyo a'u cyfieithu o gyfarfodydd y Bwrdd ar wefan Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach na 6 wythnos ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd (a gynhelir yng nghyfarfod dilynol y Bwrdd).

**Argymhelliad 12**

Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd argymhelliad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd ar gyhoeddi cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi, o leiaf, agenda ei Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ynghyd â chrynodeb priodol o'r materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny. Felly, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi'n ôl-weithredol ac yn brydlon yn y dyfodol.

**Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r argymhelliad a dderbyniwyd yn flaenorol i gyhoeddi Agendâu ARAC a chrynodeb o'r materion sy'n cael eu trafod. Mae effaith Covid, newidiadau mewn arferion gwaith ac ad-drefnu o fewn Llywodraeth Cymru wedi effeithio ar waith Ysgrifenyddiaeth ARAC yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O'r herwydd nid yw cyhoeddi wedi cael ei flaenoriaethu. Bydd Pennaeth Ysgrifenyddiaeth ARAC yn cymryd camau i roi'r argymhelliad ar waith.

**Argymhelliad 13**

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu esboniad pam na phenododd Gyfarwyddwr Anweithredol tan fis Mawrth 2022 yn dilyn ymddiswyddiad Jeff Farrar ym mis Awst 2021.

**Derbyn**

Ymddiswyddodd Jeff Farrar yn annisgwyl o'i rôl fel Cyfarwyddwr Anweithredol i Fwrdd Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2021.

Parhaodd y tri Chyfarwyddwr Anweithredol arall i fod yn weithgar wrth ddarparu cyngor, her a sicrwydd i'r Bwrdd a'r Ysgrifennydd Parhaol.

Bwriad yr ymgyrch i recriwtio Cyfarwyddwr Anweithredol newydd yn dilyn ymddiswyddiad Jeff Farrar oedd caniatáu i olynydd Dame Shan Morgan fel Ysgrifennydd Parhaol fod yn rhan o'r broses o'r cychwyn cyntaf. Dechreuodd Dr Andrew Goodall yn y swydd ym mis Tachwedd 2021.

**Argymhelliad 14**

Dylai Llywodraeth Cymru rannu â'r Pwyllgor gasgliadau ei hadolygiad o'i pholisi gwrthdaro buddiannau cyn gynted ag y mae ar gael, gydag esboniad llawn o ddiwygiadau arfaethedig ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael ag adolygiad a chasgliadau ei Gwasanaethau Archwilio Mewnol.

**Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno yn ddiweddar ar ddrafft terfynol y polisi Gwrthdaro Buddiannau diwygiedig (a elwir bellach yn Ddatganiad o Fuddiannau) gyda'r undebau llafur, rhwydweithiau staff a rhanddeiliaid eraill sydd â buddiant. Mae'r polisi diwygiedig yn bodloni holl argymhellion yr adolygiad o Wasanaethau Archwilio Mewnol. Bydd y polisi, pan gaiff ei gyfieithu, yn cael ei lansio ar ddechrau'r flwyddyn newydd gyda system electronig newydd yn cael ei datblygu'n fewnol i gofnodi a monitro datganiadau ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys atebion o ddim.

Mae casgliadau'r adolygiad wedi arwain at ddiwygiadau i bolisi sy'n cwmpasu:

- **Buddiannau perthnasol teulu agos/ffrindiau/cymdeithion** – mae'r polisi yn cadarnhau mai dim ond natur y berthynas rhwng y trydydd parti a'n cyflogai gaiff ei gofnodi i gefnogi data angenrheidiol (e.e. priod, brawd neu chwaer, partner busnes).
- **Galwedigaethau / cyflogaeth allanol** – rydym wedi darparu rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n perthyn i'r categori hwn gan gynnwys yr hyn sy'n gyfystyr â 'cyflogaeth' ac 'otherwise remunerated' yn seiliedig ar adborth y Brifysgol a chanllawiau ychwanegol gan Swyddfa'r Cabinet Llywodraeth y DU. Mae'r polisi hefyd yn glir bellach na fyddai angen datgan ' incwm goddefol' e.e. cael taliadau rhent o dan y categori hwn fel arfer.
- **Proses datganiad** – y bwriad yw lansio ein system electronig, a enwir yn Datgan yr un pryd â'r polisi diwygiedig.
- **Cadw cofnodion/preifatrwydd** – mae Hysbysiad Preifatrwydd ar wahân yn cael ei ddatblygu a fydd yn cwmpasu datganiadau buddiannau allanol yn

ogystal â materion 'Ymddygiad' eraill. Bydd yr wybodaeth hon ar gael ar y fewnrwyd a bydd dolen yn cael ei chynnwys yn y polisi pan gaiff ei gyhoeddi.

- **Gofyniad cyhoeddi ar gyfer SCS 'paid or otherwise remunerated outside employment'** – gyda chyhoeddi canllawiau diwygiedig Swyddfa'r Cabinet, rydym wedi cael ein sicrhau bod hyn yn ofyniad gorfodol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Dylid nodi (yn seiliedig ar gais Rhyddid Gwybodaeth blaenorol) ein bod yn rhag-weld mai ychydig iawn o staff SCS yn unig o fewn Llywodraeth Cymru fydd o fewn cwmpas y gofyniad hwn.
- **Enghreifftiau ychwanegol o senarios gwrthdaro/lliniaru (heb fod yn ariannol os oes modd** ) – ychwanegwyd dwy enghraifft bellach at Atodiad B (gan gynnwys un ar atebion o ddim) ac mae teitl yr Atodiad hwn wedi'i newid i adlewyrchu hyn
- **Eglurder bod y polisi'n gymwys i'r holl staff beth bynnag fo'u gradd**
- **Eglurder ar sut y mae'r polisi hwn yn ymwneud â pholisi Llywodraeth Cymru ar wirfoddoli**
- **Rhybudd ymlaen llaw o ofynion cyhoeddi allanol** - mae hyn bellach yn cael ei ddangos yn y crynodeb o'r polisi a bydd y system Datgan hefyd yn atgoffa staff o'r categorïau o fuddiant a fydd yn cael eu cyhoeddi i Gov.Wales

**Argymhelliad 15**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn ei chyfrifon lle y mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn darparu sicrwydd cyfyngedig neu ddim sicrwydd, yn ogystal â lle y mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn nodi gwendidau sylfaenol. Dylai'r wybodaeth ychwanegol hon gynnwys sylwadau am ymateb y rheolwyr i'r canfyddiadau a sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

**Gwrthod**

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol (HIA) wedi adolygu Gweinyddiaethau Datganoledig eraill a hefyd sampl o gyfrifon Adrannau Llywodraeth y DU, i feincnodi'r sefyllfa ar draws llywodraeth ganolog y DU. Mae darlun cymysg gyda'r rhan fwyaf yn gogwyddo tuag at beidio datgelu mwy o fanylion nag y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn eu datgelu. Yn wir, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn datgelu mwy o wybodaeth yn gymharol am ganlyniadau archwilio mewnol.

Mae lefel y datgeliad wedi'i adolygu a'i ddatblygu ers 2017-18. Cyn hyn, roedd y Datganiad Llywodraethiant yn cynnwys barn (lefel) sicrwydd un gair y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unig. Mae'r Datganiad Llywodraethiant bellach yn cynnwys barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol a thabl yn dangos nifer yr aseiniadau a ddadansoddwyd yn ôl lefel y sicrwydd a roddwyd am bob un (o sicrwydd "sylweddol"

i “ddim sicrwydd”). Darperir sylwebaeth fer hefyd ar themâu cyffredin neu elfennau allweddol aseiniadau “cyfyngedig” a “dim sicrwydd”. Yn ogystal, mae materion rheolaethau wedi'u cynnwys mewn Datganiadau Llywodraethiant o dro i dro, wedi'u hysgogi gan waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, hyd yn oed os nad yw cyfeiriadau penodol at ganfyddiadau archwilio mewnol wedi'u cynnwys yn y sylwebaethau ar y materion hynny.
Er hynny, ni fwriedir i archwiliad mewnol fod yn weithgarwch yr adroddir arno ond yn hytrach un sy'n hysbysu, cynghori, sicrhau ac yn adrodd yn fewnol i'r Swyddog Cyfrifyddu. Dyma pam y mae Safonau Archwilio proffesiynol byd-eang a safonau Sector Cyhoeddus yn cynnwys yn eu Cod Moesegol y gofyniad i archwilwyr mewnol “respect the value and ownership of information they receive and… not disclose information without appropriate authority unless there is a legal or professional obligation to do so”. Ym marn y Pennaeth Archwilio Mewnol nid oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol na phroffesiynol i ddatgelu gwybodaeth yn y Datganiad Llywodraethiant ar ben yr hyn y mae FReM, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gofyn amdano.

Y rheswm dros y datgeliad cyfyngedig hwn yw'r risg i effeithiolrwydd gwaith archwilio mewnol os cyhoeddir gwybodaeth ychwanegol am ganlyniadau archwilio. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn dibynnu ar gydweithrediad a thryloywder swyddogion i ddarparu archwiliad effeithiol ac mae arno angen lle diogel i gael sgyrsiau agored a gonest gyda swyddogion. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn pryderu y gallai'r ‘man diogel’ hwn gael ei golli os adroddir ar ganlyniadau archwilio mewnol yn fanwl yn y Datganiad Llywodraethiant. Nid oes gan archwilwyr mewnol y pwerau na'r amddiffyniadau sydd gan archwilwyr allanol fel Archwilio Cymru i wneud eu gwaith yn effeithiol ond maent yn dibynnu ar yr ymddiriedaeth a'r hyder rhyngddynt hwy a'r swyddogion yn eu sefydliad. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn anesmwyth ynghylch y niwed anfwriadol posibl i'r berthynas hon y gallai sylwebaeth fanylach ei achosi.

Gallai fod yn wir hefyd, ar brydiau, y gallai canfyddiadau a adroddir beri risg i Lywodraeth Cymru maent yn ymwneud â gwendidau ym maes TG neu reolaethau seiber neu wendidau mewn prosesau y bwriedir iddynt atal twyll a lle na fyddai Llywodraeth Cymru am i'r gwendidau hynny gael eu hecsbloetio.

Felly, byddai angen i werth ehangach cynnwys sylwebaeth fanylach gael ei fesur yn ofalus iawn yn erbyn yr effaith negyddol bosibl ar effeithiolrwydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ganlyniad i hynny. Y canlyniad gorau yw bod yn ddigon agored a thryloyw yn y Datganiad Llywodraethiant ynghylch materion rheolaethau allweddol neu risgiau nad ydynt wedi'u rheoli'n effeithiol fel rhan o'r sylwebaeth lliniaru risg, yn hytrach na mwy o wybodaeth am weithgarwch archwilio mewnol. Efallai y bydd yn rhoi mwy o sicrwydd i ddarllenydd bod materion rheolaethau o'r fath wedi'u datgelu pe bai'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn cadarnhau hyn i'w gynnwys yn y sylwebaeth ar eu barn sicrwydd blynyddol.

**Argymhelliad 16**

Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd argymhelliad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd ar adrodd risgiau. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys crynodeb o’r prif risgiau a newidiadau iddynt yn ystod cyfnod y cyfrifon. Dylai hyn nodi gwybodaeth am effaith bosibl y risgiau a sut y mae’r rheini’n cael eu lliniaru. Yn gyson ag argymhelliad y Pwyllgor a’n rhagflaenodd, nid ydym yn galw am gynnwys holl gofrestr risg Llywodraeth Cymru yn ei chyfrifon.

**Derbyn**

Ehangwyd y broses o adrodd ar risgiau corfforaethol yng Nghyfrifon 2022-23 gan gynnwys ffeithlun risg newydd sy'n rhoi crynodeb o'r prif risgiau ac unrhyw newidiadau iddynt yn ystod cyfnod adrodd y cyfrifon. Mae'r mesurau lliniaru sydd wedi'u rhoi ar waith i reoli risgiau sylweddol hefyd wedi'u cynnwys yn Rhan 2, y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol. Byddai unrhyw adborth pellach a gaiff y Pwyllgor ar adrodd ar Risgiau Corfforaethol yn cael ei ystyried ar gyfer cyfrifon 2023-24.

**Argymhelliad 17**

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r wybodaeth y mae'n ei chynnwys yn y cyfrifon am ei Fframwaith Perfformiad, oherwydd heb dargedau ar gyfer mesurau penodol, a sylwadau arnynt, nid yw'n bosibl deall sut y mae Llywodraeth Cymru yn perfformio.

**Derbyn**

Mae Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru yn cael ei adolygu ar hyn o bryd er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r data sydd gennym i gefnogi a gwella perfformiad sefydliadol Llywodraeth Cymru, ar draws yr ystod amrywiol o weithgareddau a gyflawnir gan y sefydliad. Fel rhan o'r adolygiad hwn, rydym yn ystyried ystod o wahanol ffactorau, gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wybodaeth am berfformiad lywio camau gweithredu perthnasol; adrodd ar berfformiad mor aml â phosibl i ExCo a'r Bwrdd; ystyried y dangosyddion y craffir arnynt a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd adrodd allbynnau.

Rydym hefyd yn ystyried y ffordd orau o fynd ati i gyhoeddi ein data yn allanol, er mwyn sicrhau y gellir cyfleu ystod a chymhlethdod yr wybodaeth berfformiad a gynhwysir yn ein hadroddiadau'n glir mewn fformat hygyrch a hawdd ei ddeall.

Rydym wrthi'n mesur ein perfformiad sefydliadol yn erbyn nifer o dargedau a byddwn yn ystyried lle y gallai defnydd pellach o dargedau fod o fudd. Dyma enghreifftiau o ddangosyddion a gyhoeddwyd yn flaenorol sydd â thargedau cysylltiedig:

- Rhyddid Gwybodaeth - mae'r ICO wedi gosod targed i 90% o geisiadau gael eu cwblhau o fewn y terfyn amser statudol.
- Cyllid Mewnol – Mae gennym darged i dalu 80% o'r anfonebau sydd wedi'u cyflwyno yn gywir o fewn pum niwrnod.
- Cydraddoldeb a Chynhwysiant – Mae targed o fewn Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i 6% o'n staff fod o leiafrif ethnig.

**Argymhelliad 18**

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r ffordd y mae'n adrodd colledion i'r Senedd a rhoi esboniad o'r hyn y mae'n ei ystyried yn golled "ddifrifol", yn unol â pharagraff A4.9.6 o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

**Derbyn**

Byddwn yn adolygu'r ffordd y rhoddwyd gwybod i'r Senedd am yr holl golledion dros y pum mlynedd diwethaf, yn ystyried arferion da mewn mannau eraill ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn erbyn 30 Mehefin 2024 ar ein canfyddiadau, gan gynnwys os ydym o'r farn bod angen diweddaru ein canllawiau cyfredol ar sut yr ydym yn rhoi gwybod am golledion neu'n diffinio colled ddifrifol.

**Argymhelliad 19**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad i'r Pwyllgor ar ôl cwblhau ei hadolygiad amhariadau er mwyn canfod gwerth cadwedig data a gwaith paratoi arall ar gyfer y cynlluniau ffyrdd.

**Derbyn**

O ganlyniad i'r Adolygiad Ffyrdd penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen â thrydedd Groesfan Menai yr A55, Gwelliannau Coridor Sir y Fflint a chynlluniau Gwella Cyffordd 3-6 yr A483 ar eu ffurf bresennol.

Cyfanswm y gwariant hanesyddol sy'n ymwneud â Thrydedd Groesfan Menai yr A55, Gwelliannau Coridor Sir y Fflint a phrosiectau Gwella Cyffordd 3-6 yr A483 yw £5.9m. Aseswyd bod £5.7m ohono wedi darfod ac felly cafodd ei ddileu yn ystod y Flwyddyn Ariannol 2022-23.

Asesu a oes unrhyw werth cadwedig, cost sy'n gysylltiedig ag allbynnau corfforol o weithgareddau e.e. dylunio amlinellol, data arolygon ac allbynnau modelu traffig, yn dal i fod o werth posibl yn y dyfodol.

Er na fydd y costau hyn bellach yn cael eu cadw ar y fantolen fel asedau nid yw hynny'n golygu y bydd astudiaethau a setiau data yn cael eu diystyru. Bydd y data a gaiff ei greu drwy'r gwariant yn aros yn Llywodraeth Cymru a chyfeirir ato yn ôl yr angen mewn astudiaethau yn y dyfodol, gan gynnwys y cynlluniau amgen a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i'r pwrs cyhoeddus.

**Argymhelliad 20**

Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer diweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, ynghyd â syniad o ran pryd y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi.

**Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o bwysigrwydd Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'r angen iddo gael ei ddiweddaru. Er hynny, mae'n ddogfen hir a chymhleth lle mae llawer o'r canllawiau sylfaenol wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym wrthi'n ystyried y goblygiadau o ran adnoddau a byddwn yn rhoi diweddariad pellach i'r Pwyllgor cyn toriad yr haf.

**Argymhelliad 21**

Mae’r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am y taliadau ex-gratia a wnaed i Hardshell UK Limited a Surviva Limited, yn ychwanegol at yr hyn a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei lythyr ar 6 Ebrill 2023. Dylai hyn nodi gwybodaeth am y trefniadau llywodraethu o ran y taliadau hyn, gan gynnwys y broses a fabwysiadwyd ar gyfer ystyried y ceisiadau a wnaed a phwy a wnaeth gymeradwyo’r taliadau. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ddarparu gwybodaeth am unrhyw waith sicrwydd arall a wnaed a’r wers a ddysgodd o’r broses hon.

**Derbyn**

Trefniadau Llywodraethiant:

Mae ystyried taliadau arbennig fel y rhai a wnaed i Hardshell a Surviva yn destun craffu gan uwch reolwyr a'r tîm llywodraethiant corfforaethol yn yr Is-adran o dan sylw a chan fod y mathau hyn o daliad yn anarferol, maent yn cael eu clirio gan y Canolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol cyn cael eu cymeradwyo ar lefel Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Gweinidogion.

Mae'r rheolau ar bwnc colledion, diddymiadau a thaliadau arbennig wedi'u cynnwys yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a chanllawiau manwl i staff a ddarperir drwy Ddogfen Bolisi a Chynllun Dirprwyo sydd ar gael ar y Fewnrwyd. Dylid nodi bod y ddogfen hon yn nodi'r angen y dylai'r swyddog cyfrifyddu cyfrifol, cyn cytuno i daliad arbennig, deimlo ei fod yn gallu cyfiawnhau'r taliad arfaethedig i'r Senedd os caiff ei herio.

Proses a fabwysiadwyd:

Cysylltodd y cwmnïau o dan sylw â Llywodraeth Cymru a dweud eu bod yn dioddef caledi o ganlyniad i ymateb i'r alwad i weithredu ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), ond eu bod heb sicrhau unrhyw fusnes o ganlyniad.
Cadarnhaodd gwaith diwydrwydd dyladwy yn gyntaf fod sefyllfa ariannol y ddau fusnes wedi gwaethygu yn ystod y pandemig ac yn ail fod rhagdybiaeth resymol bod hyn yn gysylltiedig â'u buddsoddiad i ddatblygu gallu cyflenwi PPE.

Cynhaliodd swyddogion asesiad ar y cyd o'r sefyllfa bresennol yn ogystal â chynlluniau busnes yn y dyfodol o'r ddau gwmni, cyn gofyn am gymeradwyaeth briodol gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol i ofyn am gytundeb y Gweinidogion i wneud taliadau arbennig.

O ran cyfrifo gwerth y taliadau arbennig, dywedodd Hardshell wrth swyddogion y byddai'r busnes yn methu oni bai ei fod yn gallu mynediad at gymorth ariannol o hyd at £447,000. Er mwyn osgoi mynd i ddwylo'r derbynwyr, dywedodd Surviva Wear fod arno angen £330,000 i dalu ei fenthyciadau, ôl-ddyledion ac ardrethi busnes heb eu talu disodli'r Ymchwil a Datblygu sy'n ofynnol i ddychwelyd y busnes yn ôl i gyflenwr cynhyrchion goroesi. Uchafswm y cymorth ariannol y gellid ei ystyried ar gyfer y naill gwmni neu'r llall oedd £330,000, yn unol â chymorth gwladwriaethol de minimis/rheoli cymorthdaliadau. Cymeradwyodd y Gweinidog, felly, daliadau o hyd at £330,000 i bob cwmni. Cafodd Surviva y £330,000 yn llawn. Gostyngwyd y taliad i Hardshell i £325,000 er mwyn cydymffurfio â'r rheol de minimis am fod y cwmni eisoes wedi cael cymorth ymgynghoriaeth Arloesedd SMART gan M&D.

Cyn ceisio cymeradwyaeth y Gweinidogion i wneud y taliadau i'r ddau fusnes, cynhaliwyd adolygiad manwl o'r broses a ddefnyddiwyd gan y cwmnïau i ymgymryd â'r ymarfer i ddatblygu gallu lleol i gynhyrchu a chyflenwi eitemau hanfodol o PPE.

Cymeradwywyd y cynnig i geisio cymeradwyaeth y Gweinidogion ar gyfer y taliadau gan Gyfarwyddwr Cyffredinol ESNR ar y pryd (yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol) ar 17 Mawrth 2022. Gwnaed y gymeradwyaeth derfynol ynghylch y taliadau gan Weinidog yr Economi ar 21 Mawrth 2022.

Gwers a ddysgwyd o'r broses:

Roedd yr amgylchiadau a oedd wedi arwain at y taliadau hyn a'r broses o wneud y penderfyniad i'w cymeradwyo yn destun Adolygiad Archwilio Mewnol y cyhoeddwyd yr adroddiad ar ei gyfer ym mis Chwefror 2023. Roedd yr adroddiad yn cynnwys tri phrif sylw, a rhoddwyd statws “Sylweddol” i ddau ohonynt. Er hynny, roedd Archwilio Mewnol yn gallu cadarnhau bod tystiolaeth ddigonol a llwybr archwilio yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y taliadau arbennig eu hunain. Mae'r cynllun gweithredu rheoli y cytunwyd arno ag Archwilio Mewnol yn dilyn yr Adolygiad yn cynnwys pedwar cam gweithredu clir. O'r rheini mae dau yn mynd rhagddynt ac mae dau wedi'u rhoi ar waith.

**Argymhelliad 22**

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am y nifer o gwmnïau y rhoddodd daliadau ex-gratia iddynt ar gyfer cyfarpar diogelu personol COVID-19 o gyllidebau heblaw’r un ar gyfer Prif Grŵp Gwariant yr Economi, yn ogystal â’u gwerth cyfanredol. Dylid darparu hyn fesul blwyddyn ariannol.

**Derbyn**

Mae Cofrestrau Colledion a Thaliadau Arbennig Llywodraeth Cymru wedi cael eu holi am bob taliad arbennig a nodwyd fel rhai sy'n gysylltiedig â COVID-19 am y cyfnodau ariannol canlynol:

2019-20
2020-21
2021-22
2022-23
2023-24

Ni wnaed unrhyw daliadau ex-gratia ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol COVID-19 i gwmnïau o unrhyw gyllidebau heblaw nag o MEG yr Economi.

**Argymhelliad 23**

Rydym yn argymell y dylai'r gwaith o weithredu cynllun gweithlu newydd Llywodraeth Cymru fynd rhagddo’n gyflym, gan ganolbwyntio ar y meysydd a awgrymwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Dylid rhannu cynnydd Llywodraeth Cymru yn y maes hwn â'r Pwyllgor bob chwe mis nes y bydd y cynllun wedi'i gwblhau. Dylid rhannu'r cynllun terfynol ar gyfer y gweithlu â'r Pwyllgor pan fydd wedi'i gwblhau.

**Derbyn**

Cafodd cynllun gweithredu'r gweithlu ar gyfer blwyddyn un ei ddatblygu a'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2023 gyda ‘phenodau’ allweddol o'r strategaeth bellach ar waith gan gynnwys Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau newydd; Strategaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant; Cynllun Galluoedd a Sgiliau ac ymagwedd at Ddyrchafiad a Dilyniant. Mae blaenoriaethau ar gyfer 2024 yn cael eu trafod ar hyn o bryd fel rhan o flaenoriaethau cyffredinol WG2025. Bydd ein cynllun gweithredu blwyddyn un yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor.

**Gwrthod**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gweld yr angen i ddarparu diweddariadau ar gynnydd bob chwe mis gan fod hyn yn ymwneud â rhedeg y sefydliad yn weithredol.

**Argymhelliad 24**

Mae’r Pwyllgor yn gofyn am ddiweddariadau bob chwe mis ar weithrediad y Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd, o ystyried ein pryderon ynghylch cyflymder y broses weithredu. Byddem hefyd yn croesawu cadarnhad bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal adolygiad ffurfiol o'i heffaith ar ddiwedd 2023-24. Os felly, dylid rhannu copi o'r adolygiad hwn â'r Pwyllgor.

**Derbyn**

Trwy gyflwyno Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd y Gweithlu cafodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol awdurdod dirprwyedig a chyfrifoldeb dros benderfyniadau ar adnoddau oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol. Mae gweithredu'r fframwaith a'i roi ar waith yn parhau gan ddefnyddio'r hyblygrwydd sydd ar gael i adlewyrchu'r newid yn y cyd-destun cyllidebol ac i gefnogi cynllunio ac adnoddau'r gweithlu.

Gwnaed ymrwymiad i adolygu'r fframwaith ac mae adolygiad wedi'i amserlennu i gael ei gynnal yn ffurfiol erbyn 25 Ebrill ar hyn o bryd.
Yn y cyfamser, bydd Panel Blaenoriaethu Adnoddau Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r trefniadau nes y caiff yr adolygiad ffurfiol ei gynnal. Bydd trosolwg o ganfyddiadau'r adolygiad pan gaiff ei gynnal yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor.

**Gwrthod**

Gan mai mater gweithredol i'r sefydliad yw'r fframwaith hwn, nid yw'r Ysgrifennydd Parhaol yn teimlo ei bod yn briodol rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor bob chwe mis.

**Argymhelliad 25**

Dylai Llywodraeth Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am weithrediad y system gwybodaeth reoli Adnoddau Dynol newydd. Os oes rhagor o oedi o ran gweithredu, dylid hysbysu'r Pwyllgor o hyn a rhoi rhesymau iddo dros yr oedi.

**Derbyn**

Lansiwyd Pobl, system wybodaeth AD newydd Llywodraeth Cymru, ym mis Gorffennaf 2023. Mae gwaith i ymwreiddio'r system yn llawn, datblygu gallu adrodd ymhellach a galluogi gwelliannau busnes tymor hwy yn parhau.

**Atodiad 2:**
**Craffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22**
**Ymateb i Argymhelliad 7**

**Argymhelliad 7**

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu i'r Pwyllgor, ar yr adeg y mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn cymeradwyo ac yn llofnodi Cyfrifon 2022-23 os nad cyn hynny, ddiweddariad am yr argymhellion a wnaed ganddo a'r Pwyllgor a’i rhagflaenodd yn dilyn gwaith craffu ar y cyfrifon nad yw wedi’u gweithredu eto. Dylai'r diweddariad hwn gynnwys esboniad pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu eto ar argymhelliad y Pwyllgor, yn ogystal â'r amserlen arfaethedig ar gyfer ei weithredu.

**Derbyn**

Ysgrifennais at y Pwyllgor ar 7 Tachwedd 2023 i esbonio pam na fyddai'r ymatebion i argymhellion yr adroddiadau hyn ar gael adeg llofnodi Cyfrifon 2022-23.

Mae argymhellion craffu cyfrifon Llywodraeth Cymru a wnaed gan y Pwyllgor a'i ragflaenydd o adroddiad 2017-18 i adroddiad 2020-21 wedi cael eu hystyried, gan gynnwys yr argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynnwys ym mhumed  adroddiad Etifeddiaeth y Senedd. Mae cyfanswm o 59 o argymhellion yn ymwneud â Llywodraeth Cymru wedi cael eu hasesu.

O'r 59 o argymhellion hyn, mae 9 heb eu hateb neu wedi'u hateb yn rhannol:

**2017-18**
Argymhelliad 14, cynnwys gwybodaeth ariannol fanwl (o fewn MEG) a darparu rhaglenni yn erbyn canlyniadau sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

- Yn ogystal â'r argymhelliad hwn, mae argymhellion a thrafodaethau dilynol drwy gydol y broses graffu wedi'u cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor ar lefel y manylion i'w cynnwys mewn perthynas â gwariant, cyflawni a chanlyniadau. Ymdrinnir â hyn yn Argymhelliad 1 yn Adroddiad 2021-22 a'r ymateb yn Atodiad 1.

Argymhelliad 20, Cyfrif Llywodraeth Cymru gyfan

- Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gydweithio â Llywodraeth yr Alban ar ei chynnydd tuag at Gyfrif Llywodraeth yr Alban gyfan ac wedi nodi'r heriau a wynebwyd hyd yma lle na fu modd i gyfrif o'r fath, y cytunwyd arno ag archwilwyr, gael ei gyhoeddi eto. Yn seiliedig ar y gwaith hwn nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi tystiolaeth ddarbwyllol eto o fanteision cynhyrchu Cyfrif Llywodraeth Cymru gyfan.  Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth ar hyn o bryd i weithio gydag Archwilio Cymru ar ddychwelyd cyfrifon sector cyhoeddus ar draws Cymru i linell amser

gynharach, ar ôl effaith oedi oherwydd Covid-19, ac ar y broses Alinio rhwng Cyllidebau a'r Cyfrifon Cyfunol.

**2018-19**

Argymhelliad 2, Llywodraeth Cymru i weithio gyda chyrff noddedig i adolygu gwybodaeth cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio er mwyn datblygu isafswm cyson.

- Codwyd hyn gyda Fforwm yr Arweinwyr Cyhoeddus a gytunodd i sefydlu Grŵp i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Ond wedi gwnaeth digwyddiadau Covid-19 oddiweddyd gwaith Fforwm yr Arweinwyr Cyhoeddus ac ni wnaeth y Grŵp bwrw ymlaen
- Caiff hyn ei godi yn y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus nesaf i drafod sut y dylid bwrw ymlaen ag ef.

Argymhelliad 3, Cyfrif Llywodraeth Cymru gyfan

- Gweler yr ymateb ar gyfer Argymhelliad 20 2017-18 uchod.

**2019-20**

Argymhelliad 2, Cydymffurfio â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol

- Ymdrinnir â hyn yn Argymhelliad 8 yn Adroddiad 2021-22 a'r ymateb yn Atodiad 1.

Argymhelliad 11, Cyhoeddi Agendâu ARAC

- Ymdrinnir â hyn yn Argymhelliad 12 yn Adroddiad 2021-22 a'r ymateb yn Atodiad 1.

**2020-21**

Argymhelliad 8, Gweithredu i wella prosesau cadw cofnodion – wedi'i gwblhau yn rhannol

- Cafodd y Canllaw Cyflym i Reoli Gwybodaeth a Chofnodion ei ddiweddaru a'i lansio i'r holl staff.
- Mae diweddariadau wedi'u gwneud i ganllawiau cysylltiedig a thudalennau mewnrwyd i adlewyrchu'r newidiadau i'r Canllaw.
- Mae hyfforddiant cadw cofnodion hefyd wedi'i integreiddio i hyfforddiant iShare (System Rheoli Cofnodion Corfforaethol).
- Mae ein hymgyrch Blwyddyn Rheoli Gwybodaeth a Hysbysrwydd (KIM) 2024 wedi'i lansio. Ymgyrch blwyddyn o hyd yw hon i wella gwybodaeth a helpu i reoli, rhannu ac adfer gwybodaeth.
- Nid oes cwrs hyfforddi pwrpasol ar gadw cofnodion ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi'i roi ar waith eto. Mae adnoddau hyfforddi yn benodol i ddatblygu cyrsiau pwrpasol yn cael eu hasesu a'u blaenoriaethu fel rhan o ofynion hyfforddi ehangach Llywodraeth Cymru, ac fel y nodwyd uchod bydd y Flwyddyn Rheoli Gwybodaeth yn darparu erthyglau, canllawiau a

digwyddiadau i godi dealltwriaeth o bwysigrwydd rheoli gwybodaeth yn dda a chymhwyso arferion gorau.

Argymhelliad 10, Swyddfa'r Cabinet yn gweithio ar y berthynas rhwng Swyddfa'r Cabinet ac Ysgrifenyddion Parhaol Llywodraeth Cymru a'r Alban

- Mae hyn yn aros am ymgysylltiad pellach gan Swyddfa'r Cabinet. Pan fydd ymgysylltu o'r fath yn digwydd, caiff y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf.

Argymhelliad 15, Diweddariadau bob chwe mis ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar Fonitro Ôl-Gwblhau Grantiau Busnes Covid-19 i'w darparu i'r Pwyllgor.

- Wedi'i gwblhau ar gyfer diweddariad Ebrill 2023, mae diweddariad Hydref 2023 wedi'i ohirio a bydd diweddariad ym mis Tachwedd 2023 yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor cyn bo hir.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor
Cyfrifon Cyhoeddus a
Gweinyddiaeth Gyhoeddus

**Cyfeirnod:** AC388/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 19 Hydref 2023

Annwyl Mark

# Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: gwaith dilynol 2023

Rwy'n ysgrifennu i rannu canfyddiadau fy ngwaith dilynol ar drefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon. Cyhoeddais fy adroddiad blaenorol ym mis Tachwedd 2020, a oedd ynddo'i hun yn waith dilynol wedi i'm rhagflaenydd gyhoeddi adroddiad yn 2013.

Yn 2020, deuthum i'r casgliad canlynol: Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gefnogi staff cyflenwi, mynd i'r afael ag achosion sylfaenol absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth, gwella trefn rheoli absenoldeb a mynd i'r afael â rhai pryderon allweddol ynghylch contractau asiantaeth. Fodd bynnag, mae bylchau mewn data yn golygu ei bod yn dal yn anodd dweud a yw rhai o'r camau hyn yn cael yr effeithiau a fwriedir.'

Ni chynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol ymchwiliad manwl i'r pwnc hwn. Ym mis Mai 2021, darparodd Llywodraeth Cymru ymateb i'm dau argymhelliad gan dderbyn y ddau yn rhannol.

- Yr argymhelliad cyntaf oedd 'sicrhau ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion'. Roedd hyn yn cynnwys atgyfnerthu pwysigrwydd rheoli absenoldeb staff yn effeithiol, bod â mesurau llwyddiant tymor hwy, a chydweithio ag asiantaethau eraill ar hyfforddiant ac adnoddau. Roedd hefyd yn cynnwys deall a oedd ysgolion yn gallu trefnu digon o staff cyflenwi yng

nghyd-destun y galwadau a oedd yn dod i'r amlwg ar y pryd ac, ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a phynciau penodol, prinder presennol athrawon cyflenwi.

- Roedd yr ail argymhelliad yn mynd i'r afael â'r fframwaith caffael cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth mewn addysg. Roedd y fframwaith a oedd ar waith ar y pryd yn mynd i'r afael â llawer o bryderon a fynegwyd ynghylch trefniadau contractio blaenorol. Fodd bynnag, roedd ei gyfradd isafswm cyflog ar gyfer athrawon cyflenwi'n debygol o roi pwysau ar gyllidebau ysgolion. Roedd yr argymhelliad yn ymwneud â hyrwyddo a defnyddio'r fframwaith a'r trefniadau monitro i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud o fewn disgrifiadau rôl.

Rwy'n ystyried bod nawr yn amser da i asesu cynnydd a hynny am y rhesymau canlynol:

- Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd y Pwyllgor Deisebau adroddiad ar ei ymchwiliad i ddeiseb 'Rhoi Chwarae Teg i Athrawon Cyflenwi'. Gwnaeth bedwar argymhelliad, yr oedd rhai ohonynt yn adleisio fy rhai innau. Gan ffafrio datrysiad yn y sector cyhoeddus, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth bellach i drefniadau amgen ar gyfer cynorthwyo ysgolion i ddod o hyd i athrawon cyflenwi a'u cyflogi. Roedd y dewisiadau amgen a awgrymwyd yn cynnwys cyflogi'n uniongyrchol a chyflwyno trefniadau cyflenwi canolog neu ranbarthol.

- Yn ei Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2021-2026, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer darpariaeth athrawon cyflenwi sydd â gwaith teg yn ganolog iddo. Mae contract wedi'i osod i gefnogi Pwll Cyflenwi Cenedlaethol newydd Cymru a fydd yn cael ei gyflwyno o hydref 2023.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB) adolygu telerau ac amodau athrawon cyflenwi. Yn flaenorol, dywedodd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru y byddai goblygiadau sylweddol o ganlyniad i gynnwys contractwyr unigol ac asiantaethau o fewn cylch gwaith y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru). Bydd adroddiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, a ddisgwylir ym mis Rhagfyr 2023, yn bwrw golwg ar athrawon cyflenwi sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Ni fydd yn cynnwys y mwyafrif o'r athrawon cyflenwi sy'n cael eu cyflogi'n bennaf gan asiantaethau.

- Yn ystod ein gwaith, roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn caffael contract fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer athrawon cyflenwi a staff dros dro eraill yn barod ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24.

Mae ein dull archwilio wedi cynnwys cyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, a chynrychiolwyr athrawon cyflenwi. Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau polisi Llywodraeth Cymru ynghyd â'i hymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol a rhai'r Pwyllgor Deisebau. Fe wnaethom ddadansoddi data gwariant perthnasol ac ystyried cwmpas y contract fframwaith cenedlaethol newydd, er nad ydym wedi archwilio manylion y trefniadau caffael. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi arolwg byr yn gofyn am farn cyfarwyddwyr addysg awdurdodau lleol, gan gael saith ymateb.

Er bod y llythyr hwn yn nodi canfyddiadau allweddol o'n gwaith dilynol lefel-uchel, nid ydym wedi bwriadu iddo fod yn gofnod cynhwysfawr o ddatblygiadau cyffredinol yn y maes hwn ers fy adroddiad blaenorol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed, rwyf wedi dod i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd ystod o gamau gweithredu perthnasol mewn ymateb i'm hargymhellion yn 2020 a dderbyniodd gan mwyaf. Fodd bynnag, gan adlewyrchu materion tebyg i'r rhai a godwyd yn fy adroddiad blaenorol, mae bylchau mewn data, er enghraifft ar y niferoedd sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol, diffyg gwerthuso hyd yma a diffyg darlun clir o'r hyn sy'n gyfystyr ag ansawdd da a chyflenwad digonol ar draws y system addysg, yn golygu nad yw'n glir a yw'r holl gamau gweithredu wedi bod yn effeithiol. Mae'r pwyntiau bwled isod yn crynhoi fy nghanfyddiadau.

- Ar sicrhau ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion:
  - Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'w chanllawiau ar reoli presenoldeb y gweithlu ysgolion ac wedi gwella'r fethodoleg ar gyfer casglu data ar absenoldeb oherwydd salwch ymhlith athrawon ond nid oes data o hyd ar gyfraddau absenoldeb am resymau eraill.
  - Yn y pen draw, ysgolion sy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniant cyflenwi ar gael yn yr ystafell ddosbarth ac am ansawdd yr addysgu, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi sut y bydd yn gwybod a yw ei chamau gweithredu ategol hi ei hun yn effeithiol.
  - Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i ddarparu mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon cyflenwi a staff cyflenwi ond nid oes data ar y niferoedd sy'n manteisio arnynt nac effaith hynny.
  - Mae adroddiadau o hyd am brinder darpariaeth gyflenwi addas mewn rhai ardaloedd, pynciau ac mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, tra bo nifer yr athrawon cyflenwi cofrestredig ar y cyfan wedi gostwng.

- Ar y contract fframwaith cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth mewn addysg a datblygiadau ehangach perthnasol:
  - Er nad yw wedi sefydlu unrhyw drefn fonitro systematig, ers mis Hydref 2020 nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am unrhyw achosion lle gofynnwyd i athrawon cyflenwi neu staff cyflenwi eraill weithio y tu allan i'w rôl a hysbysebwyd ac mae wedi atgyfnerthu ei disgwyliadau.
  - Mae'r defnydd o'r contract fframwaith cenedlaethol wedi cynyddu ychydig o gyfradd a oedd eisoes yn uchel, felly mae mwy o drefniadau cyflenwi'n cael budd o'i ofynion diogelu a chyflogaeth.
  - Gwariodd ysgolion ac awdurdodau lleol £101 miliwn ar staff asiantaeth mewn addysg trwy'r contract fframwaith yn 2022-23. Roedd hyn ychydig dros 10% yn fwy mewn termau real nag yn 2021-22 a thros dair gwaith yn fwy nag yn 2018-19 o dan y contract blaenorol.
  - Mae cyflog ar gyfer athrawon cyflenwi sy'n gweithio trwy asiantaeth wedi cynyddu, gyda'r gyfradd ddyddiol isaf ar gyfer athrawon cyflenwi a gyflogir trwy'r contract yn codi i £152 ym mis Mai 2023.
  - Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu contract fframwaith cenedlaethol newydd, gan adeiladu ar drefniadau 2019/20 – 2022/23 ond gyda gwelliannau pellach yn yr arlwy dysgu proffesiynol a threfniadau diogelu cyflogaeth.
  - Mae cynrychiolwyr athrawon cyflenwi'n ofalus obeithiol ynghylch opsiwn newydd Llywodraeth Cymru i ysgolion ac awdurdodau lleol gyflogi athrawon cyflenwi'n uniongyrchol trwy Bwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru sy'n cynnig mynediad at y gronfa bensiwn athrawon, ond nid yw'n hysbys faint sy'n debygol o fanteisio ar yr opsiwn, a bydd costau'n uwch nag ar hyn o bryd.

Mae **Atodiadau 1 a 2** yn rhoi rhagor o fanylion ac mae **Atodiad 3** yn cynnwys rhywfaint o ddadansoddiad ariannol ategol. Nid wyf yn cyflwyno argymhellion penodol pellach i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddwn yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i fonitro'r defnydd o'i chontract fframwaith a'i effeithiolrwydd yn ogystal â gwerthuso'r opsiwn newydd i gyflogi athrawon cyflenwi'n uniongyrchol i sicrhau ei fod yn effeithiol i ysgolion ac athrawon cyflenwi. Yn yr un modd, byddwn yn disgwyl i Lywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd ei harlwy dysgu proffesiynol a'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol mewn perthynas ag athrawon cyflenwi a staff cyflenwi eraill. Hefyd, rwy'n dal i gredu y

